Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
Higher Education Funding Council for Wales
hefcw

# Rhan Dau: Cynllun Ffioedd a Mynediad (yn ofynnol ar gyfer ei gyhoeddi)

| Cynllun Ffioedd a Mynediad | |
|---|---|
| Enw'r sefydliad | Prifysgol Aberystwyth |
| Hyd y Cynllun Ffioedd a Mynediad | 1 Awst 2023 hyd at 31 Gorffennaf 2025 |
| **Adran 1 - Lefelau Ffioedd** | |
| Adran 1.1 – Lefelau ffioedd neu'r penderfyniad ynghylch lefel y ffioedd ym mhob lleoliad (paragraffau 88-97 yn y canllawiau) | |
| **Lefel y ffioedd** | **Lleoliad y cwrs** |
| **Uchafswm y ffi a reoleiddir** | Aberystwyth ar gyfer y cyfnod 2023/24 a 2024/25<br><br>• Israddedigion Cartref (gan gynnwys Iwerddon, Ynysoedd y Sianel ac Ynys Manaw)<br>• Myfyrwyr Cartref Gradd Meistr Integredig<br>• Myfyrwyr Cartref TAR<br><br>Byddwn yn hysbysu pob ymgeisydd a myfyriwr am lefelau'r ffioedd rheoledig ar gyfer 2023/24 ac am unrhyw gynnydd sy'n gysylltiedig â chwyddiant ar gyfer blynyddoedd astudio dilynol cyn gynted ag y ceir cadarnhad gan Lywodraeth Cymru, a byddwn yn cyhoeddi diweddariadau ar ein gwefan. Bydd manylion diweddaraf y ffioedd perthnasol yn cael eu nodi yn ein dogfennau cynnig lle. |
| **15% o uchafswm y ffi a reoleiddir yn unol â chanllawiau CCAUC** | Aberystwyth<br><br>• Blwyddyn Integredig yn Astudio Dramor |

| | |
|---|---|
| | Byddwn yn hysbysu pob ymgeisydd a myfyriwr am lefelau'r ffioedd ar gyfer 2023/24 ac am unrhyw gynnydd sy'n gysylltiedig â chwyddiant ar gyfer blynyddoedd astudio dilynol cyn gynted ag y ceir cadarnhad gan Lywodraeth Cymru, a byddwn yn cyhoeddi diweddariadau ar ein gwefan. |
| **20% o uchafswm y ffi a reoleiddir, yn unol â chanllawiau CCAUC** | Aberystwyth<br><br>• Blwyddyn integredig mewn diwydiant<br>• Blwyddyn integredig mewn ymarfer proffesiynol<br><br>Byddwn yn hysbysu pob ymgeisydd a myfyriwr am lefelau'r ffioedd ar gyfer 2023/24 ac am unrhyw gynnydd sy'n gysylltiedig â chwyddiant ar gyfer blynyddoedd astudio dilynol cyn gynted ag y ceir cadarnhad gan Lywodraeth Cymru, a byddwn yn cyhoeddi diweddariadau ar ein gwefan. |
| **Ffi a bennir mewn cytundebau partner Masnachfraint** | Mae'r ffioedd ar gyfer rhaglenni Israddedig a gynigir gan ein Partneriaid Masnachfraint yn cael eu pennu mewn cytundeb â'n partneriaid masnachfraint.<br><br>O ran cyrsiau sydd ynghlwm â'r ffi a reoleiddir, mae'r terfynau ar gynnydd yn y ffioedd a reoleiddir fel y pennir gan Lywodraeth Cymru yn berthnasol. Os cynigir y rhain ar lai na'r uchafswm, gallant fod yn destun adolygiad blynyddol, a allai arwain at gynnydd. |
| Adran 1.2 - Lefelau ffioedd cyfanredol<br>(paragraffau 98-102 yn y canllawiau) | |
| Bydd Aberystwyth yn codi'r lefel uchaf a reoleiddir i ffioedd myfyrwyr Cartref Amser-Lawn Israddedig, Meistr Integredig a TAR sy'n rhan o'r cynllun hwn. Llwodraeth Cymru sy'n pennu'r ffi uchaf, sef £9,000 i 2023/24. Y ffi i 2024/25 fydd £9,250.<br><br>Bydd unrhyw gynnydd yn y ffi Israddedig, Meistr Integredig a TAR Cartref Llawn Amser ar gyfer blynyddoedd y dyfodol yn cyd-fynd â'r cynnydd uchaf mewn ffioedd a bennir gan Lywodraeth Cymru. Bydd ffioedd cyfanredol am hyd cyfan y cwrs yn dibynnu ar hyd y rhaglen (mae'r rhan fwyaf o'n rhaglenni israddedig yn dair neu bedair blynedd o hyd), ac a yw'r rhaglen yn cynnwys Blwyddyn Astudio Dramor ai peidio (codir tâl sydd ar hyn o bryd yn 15% o uchafswm y ffi a reoleiddir) neu Flwyddyn mewn Diwydiant/ymarfer proffesiynol (codir tâl sydd ar hyn o bryd yn 20% o uchafswm y ffi a reoleiddir), ac a oes cynnydd sy'n gysylltiedig â chwyddiant fel yr amlinellir uchod. | |

**Adran 2 – Partneriaeth Myfyrwyr**
(paragraffau 103-106 yn y canllawiau)

Mae Prifysgol Aberystwyth yn ymgysylltu â'i Hundeb Myfyrwyr a'r corff myfyrwyr ehangach drwy gydol y flwyddyn mewn amrywiaeth eang o ffyrdd, yn ffurfiol ac yn anffurfiol ill dau. Anogir yr holl fyfyrwyr i roi adborth ar eu profiadau a chyfrannu syniadau ac awgrymiadau i helpu i lunio eu haddysg. Mae ein Cynllun Strategol 2018-23 yn ymrwymo i 'wella'r profiad myfyriwr ymhellach a chydweithio'n agos ag Undeb y Myfyrwyr i gadw llais y myfyriwr yn ganolog i'n gweithgaredd.' Rydym yn arddel egwyddor graidd Datganiad Wise Cymru ar Bartneriaeth ar gyfer Addysg Uwch (2014) sef *'y dylai myfyrwyr chwarae rôl weithredol yn y broses o ddysgu, yn hytrach na dim ond derbyn gwybodaeth yn oddefol'.*

**Siarter y Myfyrwyr**
Mae Siarter y Myfyrwyr, sy'n cael ei diweddaru'n flynyddol, yn crynhoi pwysigrwydd cynrychiolaeth effeithiol gan fyfyrwyr, gydag ymrwymiad i gynnwys cynrychiolwyr myfyrwyr fel partneriaid llawn yn ein pwyllgorau a'n strwythurau.

https://www.aber.ac.uk/cy/student/charter/

Yn ogystal, mae Undeb y Myfyrwyr a'r Brifysgol yn llofnodi Cytundeb Perthynas, yn seiliedig ar ddeg egwyddor y cytunwyd arnynt. Mae Egwyddor 4 yn nodi bod 'Prifysgol Aberystwyth' yn cydnabod mai Undeb Myfyrwyr Aberystwyth yw prif lais y myfyrwyr a bydd yn sicrhau yr ymgynghorir â'r Undeb yn brydlon cyn i benderfyniadau gael eu gwneud sy'n effeithio ar fyfyrwyr'. Mae ymgorffori llais y myfyrwyr yn ein prosesau llywodraethu yn ffordd o sicrhau bod y Brifysgol yn cadw at yr egwyddor hon.

https://www.aber.ac.uk/en/media/departmental/governance/studentsunion/2018-08-01---Relationship-Agreement-1.pdf

**Llais y Myfyrwyr wrth Sicrhau Ansawdd, Gwella Ansawdd a Llywodraethu**

Ar y lefel uchaf, cynhelir cyfarfodydd rheolaidd rhwng swyddogion Grŵp Gweithredol y Brifysgol a swyddogion Undeb y Myfyrwyr. Mae'r rhain yn rhoi cyfleoedd i Undeb y Myfyrwyr sicrhau bod llais y myfyrwyr yn cael ei glywed gan uwch reolwyr ac yn sicrhau bod cydweithio agos yn digwydd ar faterion sy'n cyfrannu at lwyddiant myfyrwyr. Yn ogystal â'r cyfarfodydd hyn rhwng y ddwy weithrediaeth, cynhelir cyfarfodydd anffurfiol yn aml rhwng yr Is-Ganghellor a llywydd Undeb y Myfyrwyr.

O fewn strwythur ffurfiol y Brifysgol ceir cynrychiolwyr myfyrwyr a benodir gan Undeb y Myfyrwyr ar y mwyafrif o'n prif bwyllgorau, gan gynnwys:

- y Cyngor a'i is-bwyllgorau,
- y Senedd (sef y prif gorff sy'n gyfrifol am y Strategaeth Dysgu ac Addysgu)
- cynrychiolwyr ar lefel yr Athrofeydd sy'n cymryd rhan mewn trafodaethau ar elfennau allweddol sicrhau ansawdd (gan gynnwys cymeradwyo cynlluniau astudio newydd a'u monitro a'u hadolygu'n flynyddol)

- cynrychiolwyr adrannol sy'n cymryd rhan yn y Pwyllgorau Ymgynghorol Staff Myfyrwyr, lle gellir codi pryderon myfyrwyr a mynd i'r afael â hwy drwy drafod â staff yr adran. Mae gwaith y cynrychiolwyr academaidd yn rhan bwysig o waith Undeb y Myfyrwyr wrth sicrhau bod llais y myfyrwyr yn cael ei glywed yn llawn.
- mae Cynrychiolwyr Academaidd yn cael hyfforddiant a chefnogaeth ar gyfer eu rôl gan Undeb y Myfyrwyr. Maent yn gyfrifol am gynrychioli myfyrwyr ar lefel cwrs, grŵp blwyddyn neu faes pwnc, neu gallant fod yn gyfrifol am gynrychioli carfannau penodol fel myfyrwyr Cydanrhydedd neu fyfyrwyr Hŷn.
- Strategaeth Dysgu ac Addysgu (Cynllun Llwyddiant Myfyrwyr). Caiff y Strategaeth Dysgu ac Addysgu ei gweithredu drwy wahanol feysydd gwaith. Mae cynrychiolwyr myfyrwyr ar grwpiau gweithredu pob maes perthnasol.

**Llais y Myfyrwyr yn y Cynllun Ffioedd a Mynediad**
Mae Grŵp Llais y Myfyrwyr yn cynnwys Undeb y Myfyrwyr a staff y Brifysgol, a'i gylch gwaith yw brysbennu a dadansoddi sylwadau ac adborth myfyrwyr a dderbynnir drwy'r prif lwybrau canlynol:

i. Pwyllgorau Ymgynghorol Staff Myfyrwyr (y system cynrychiolaeth academaidd)
ii. Cynllun adborth Dy Lais ar Waith ('Your Voice Matters') y Brifysgol.

Mae *Dy Lais ar Waith* yn ddull ledled y brifysgol o ymgysylltu â myfyrwyr ac mae'n annog myfyrwyr i awgrymu ffyrdd o wella gweithgareddau a phrosesau yn y Brifysgol. Mae dwy elfen i 'Dy Lais ar Waith':

- *Rho Wybod Nawr* – sef porth dienw ar-lein y gall myfyrwyr gyfrannu syniadau a sylwadau drwyddo. Mae hyn yn hanfodol er mwyn monitro'r broses o wireddu mentrau.
- *Holiaduron Gwerthuso Modiwlau* - arolygon wedi'u trefnu'n ganolog ar gyfer holl fodiwlau graddau israddedig a Meistr Integredig, gan alluogi cyfoeth o ddata a gwybodaeth i fod yn sail i waith yr adran a'r Brifysgol yn gyffredinol ar gyfer gwella profiad myfyrwyr.

Caiff dadansoddiad Grŵp Llais y Myfyrwyr, ac argymhellion y Grŵp, eu rhoi i'r holl staff sy'n ymwneud ag arweinyddiaeth a chynllunio academaidd, yn ogystal â'r uwch reolwyr. Mae'r dadansoddiad yn llywio penderfyniadau strategol am lefelau buddsoddi, gan gynnwys gwariant y Cynllun Ffioedd a Mynediad. Mae'r cylch adborth yn ôl i'r myfyrwyr (am y camau a gymerwyd) yn cael ei gau drwy ymgyrch gyfathrebu reolaidd sy'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i fyfyrwyr ynghylch sut mae eu lleisiau yn sbarduno newid.

**Llais y Myfyrwyr wrth gytuno ar y Cynllun Ffioedd a Mynediad**

Mae aelodau ein Hundeb Myfyrwyr yn aelodau o Grŵp Monitro'r Cynllun Ffioedd a Mynediad, sef grŵp sy'n cymeradwyo cynnwys a blaenoriaethau'r cynllun ac sy'n derbyn adroddiadau ar weithgarwch a gwariant. Caiff Undeb y Myfyrwyr y wybodaeth ddiweddaraf am yr ymatebion i Lais y Myfyrwyr a dderbynnir drwy Grŵp Llais y Myfyrwyr. Bydd cyfarfodydd ag Undeb y Myfyrwyr yn ystod y ddwy flynedd nesaf yn parhau i egluro sut mae'r Cynlluniau Ffioedd a Mynediad yn cyd-fynd â blaenoriaethau, ymgyrchoedd a phryderon Undeb y Myfyrwyr.

Mae Llywydd Undeb y Myfyrwyr a Swyddog Diwylliant Cymru/Llywydd UMCA hefyd yn aelod o Gyngor y Brifysgol, sy'n cymeradwyo fersiwn derfynol ein Cynlluniau Ffioedd a Mynediad.

Mae'r Brifysgol yn cydweithio gyda nifer o bartneriaid i gyflwyno darpariaeth Israddedig ledled Cymru ac mae'n cydnabod ei chyfrifoldebau tuag at y myfyrwyr hynny. Rydym yn cydweithio'n agos gyda'n holl bartneriaid i sicrhau ansawdd y ddarpariaeth ac ansawdd profiad y myfyrwyr. Mae'r gofyniad i ymgysylltu'n briodol â llais y myfyrwyr wedi'i ymgorffori yn ein cytundebau partneriaeth ac rydym yn sicr bod eu prosesau ar gyfer cynrychiolaeth myfyrwyr yn gadarn a bod gan fyfyrwyr fecanwaith y gallant fynegi a diwallu eu hanghenion drwyddi. Rydym hefyd yn hyderus bod lefel y buddsoddiad yn y Colegau Partner yn bodloni gofynion y Cynllun Ffioedd. Mae partneriaid yn cymryd rhan, er enghraifft, yn ein Holiaduron Gwerthuso Modiwlau, yn ogystal â bod â ffyrdd eraill o ymgysylltu â llais y myfyrwyr. Yng Ngholegau Cambria a Gwent, mae'r myfyrwyr yn cwrdd â'r Tiwtor Cyswllt o Brifysgol Aberystwyth ddwywaith y flwyddyn i drafod eu barn am y rhaglenni ac i godi unrhyw faterion yn uniongyrchol.

Yn ogystal :–

Yng Ngholeg Cambria, ceir cynrychiolaeth myfyrwyr ar Grŵp Gweithredol Addysg Uwch. Derbynnir adborth myfyrwyr hefyd drwy'r Holiaduron Gwerthuso Modiwlau a thrwy holiaduron 'ffug' yr Arolwg Cenedlaethol i Fyfyrwyr. Yn ogystal, mae ein Hundeb Myfyrwyr yn weithgar gyda myfyrwyr yn ein partneriaid masnachfraint.

Yng Ngholeg Gwent mae dau gynrychiolydd myfyrwyr ar gyfer pob blwyddyn astudio. Gall myfyrwyr hefyd roi adborth drwy'r fforwm Llais y Dysgwr a gynhelir ddwywaith y flwyddyn. Yn ogystal, mae gan fyfyrwyr ymgyrch "Gyda'n Gilydd rydyn ni wedi..." lle hyrwyddir newidiadau neu weithredoedd newydd a gyflwynir yn y Coleg o ganlyniad uniongyrchol i adborth myfyrwyr. Gwahoddir myfyrwyr hefyd i fforwm gydag Is-Bennaeth a Phennaeth Gwasanaethau Dysgwyr y Coleg.

## Adran 3 – Grwpiau tangynrychioledig

(paragraffau 107-113 yn y canllawiau)

**Grwpiau a gydnabyddir gan CCAUC fel rhai sydd wedi'u tangynrychioli mewn Addysg Uwch:**
Rydym yn cydnabod bod y grwpiau canlynol wedi'u tangynrychioli mewn addysg uwch ac/neu angen cymorth ychwanegol. Mae rhai o'r grwpiau hyn yn cael eu cydnabod gan yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA) i fod yn ddangosydd cenedlaethol o berfformiad cyfranogiad isel mewn AU neu wedi'u nodi gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) i fod wedi'u tangynrychioli mewn Addysg Uwch. Y rhesymeg dros gynnwys y grwpiau hyn yw bod gwaith Cynllun Ffioedd a Mynediad i wella'r denu a'r cadw ar unigolion o'r grwpiau hyn yn cyfrannu at flaenoriaethau recriwtio cenedlaethol ac yn mynd i'r afael ag anghydraddoldebau a gydnabyddir ledled Cymru.

- Myfyrwyr yng nghwintel isaf ardaloedd cynnyrch ehangach haen is Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru
- Myfyrwyr cyfrwng Cymraeg.

- Myfyrwyr o ardaloedd yn y DU sydd â chyfranogiad isel mewn addysg uwch.
- Myfyrwyr sy’n cael eu hadnabod fel blaenoriaeth o dan y Rhaglen Ymgyrraedd yn Ehangach:
  - Pobl ifanc dros 16 oed o’r ddau gwintel isaf ym Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru
  - Oedolion heb gymwysterau lefel 4 yn nau gwintel isaf Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru i roi dilyniant i ddarpariaeth lefel 4
  - Ymgeiswyr â phrofiad o ofal a gofalwyr ym mhob grŵp oedran ledled Cymru.

**Grwpiau eraill y cydnabyddir eu bod wedi’u tangynrychioli mewn Addysg Uwch**

Yn ogystal, rydym wedi cynnwys nifer o grwpiau yn ein cynlluniau yr ydym, yn draddodiadol, wedi’u cael yn anodd recriwtio, gan gynnwys:

| Grŵp Myfyrwyr/Ymgeiswyr | Rhesymeg dros ei gynnwys yn y cynllun hwn |
|---|---|
| Myfyrwyr ag anableddau, gan gynnwys anableddau dysgu penodol a’r rhai sy’n byw gyda heriau iechyd meddwl hirdymor | Mae myfyrwyr ag anableddau yn cael eu cydnabod gan HESA yn ddangosydd perfformiad cenedlaethol ar gyfer cyfranogiad isel. Yn y Dangosyddion Perfformiad diweddaraf a gyhoeddwyd gan HESA, ar gyfer 2020/21, cofnodwyd bod 11.8% o’n hisraddeigion llawn amser Gradd Gyntaf yn derbyn Lwfans Myfyriwr Anabl, yn erbyn meincnod disgwyliedig o 8%. Nod y buddsoddiadau yn y cynllun hwn yw ein helpu i aros uwchlaw ein meincnod yn y maes hwn. |
| Myfyrwyr hŷn | Mae’r Swyddfa Myfyrwyr yn cynnwys myfyrwyr hŷn yn y grwpiau a dangynrychiolir mewn AU. Yn ôl Dangosyddion Perfformiad HESA ar gyfer myfyrwyr yn dechrau yn 2020/21, roedd 15.7% o’n dechreuwyr yn hŷn, o gymharu â chyfartaledd y DU o 29.9% Mae’n bosibl bod gan y myfyrwyr hyn anghenion cymorth penodol ar ôl bod allan o addysg, wedi dod i mewn drwy lwybrau anhraddodiadol, neu fod ganddynt gyfrifoldebau gofal ychwanegol. Mae dysgwyr sy’n oedolion yn cael eu cydnabod yn grŵp blaenoriaeth trwy’r Rhaglen Ymgyrraedd yn Ehangach. |
| Myfyrwyr o gefndiroedd lleiafrifol ethnig | Canfu adroddiad gan Universities UK fod nifer y myfyrwyr o gefndir ethnig lleiafrifol mewn AU wedi cynyddu 50% rhwng 2006 a 2016. Fodd bynnag, daeth yr adroddiad i’r casgliad bod |

| | |
|---|---|
| | angen gwneud mwy mewn Prifysgolion i fynd i'r afael â'u cadw, tegwch mewn cyrhaeddiad a rhagolygon cyflogadwyedd graddedigion myfyrwyr o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig. |
| Pobl sy'n gadael gofal, gofalwyr ifanc a myfyrwyr sydd wedi ymddieithrio/heb gymorth | Rhan fach o'n carfan o fyfyrwyr yw'r rhain, ond mae ganddynt anghenion penodol gan nad oes ganddynt y cymorth y mae'r rhan fwyaf o'n myfyrwyr yn ei gael gan deulu. Yn ôl adroddiad UCAS yn 2014, dim ond 6% o'r rhai sy'n gadael gofal sy'n mynd i addysg uwch (o gymharu â 40% o'r boblogaeth gyffredinol). Mae UCAS yn nodi mai diffyg gwybodaeth am y cymorth sydd ar gael yw'r rhwystrau rhag mynd. |
| Myfyrwyr o gefndiroedd incwm isel | Adroddodd yr Adran Addysg ym mis Gorffennaf 2020, o ran dilyniant i AU, mai parhau i ehangu y mae'r bwlch rhwng myfyrwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'r rhai nad ydynt yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Mae 26.3% o fyfyrwyr sy'n hawlio prydau ysgol am ddim bellach yn mynd i AU, o gymharu â 45.1% o'u cymheiriaid o gartrefi mwy cyfoethog. |
| Y cyntaf yn y teulu i fynd i Addysg Uwch | Gall myfyrwyr sy'n dod o ardaloedd sydd â chyfranogiad isel mewn AU fod y cyntaf yn eu teulu i fynychu AU. Mae angen cymorth arbennig arnynt o flaen llaw i godi dyheadau. |

Rydym hefyd yn cydnabod ein cyfrifoldeb i bob myfyriwr sydd â nodweddion gwarchodedig, a byddwn yn monitro cynnydd a chyrhaeddiad y grwpiau hyn yn ofalus yn unol â'r nod a ddatganwyd yn ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol i 'feithrin cymuned ddysgu a gweithio gynhwysol heb fod ynddi wahaniaethu, aflonyddu nac erledigaeth, lle caiff ein holl staff a'n dysgwyr eu cefnogi, eu parchu a chyfle i wireddu eu potensial.'

Mae buddsoddiadau'r Cynllun Ffioedd yn cefnogi'r myfyrwyr hyn mewn dwy ffordd:

- Drwy weithgareddau wedi'u targedu at grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli mewn addysg uwch gyda'r bwriad o ehangu cyfranogiad a gwella cadw myfyrwyr.

- Drwy weithgareddau sydd ar gael i bob myfyriwr ond rhai lle rhoddir sylw ychwanegol i anghenion penodol myfyrwyr o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol er mwyn sicrhau bod yr holl rwystrau posibl i fynediad yn cael eu dileu a lle rhoddir pwyslais ar y manteision posibl i fyfyrwyr sy'n cael eu tangynrychioli mewn addysg uwch. Ceir gweithgareddau hefyd sydd, er eu bod ar gael i bob myfyriwr, yn fwy tebygol o gael eu defnyddio gan fyfyrwyr sydd angen cymorth ychwanegol (e.e. gweithgareddau ein gwasanaethau Cymorth i Fyfyrwyr).

| | |
|---|---|
| **Adran 4 – Amcanion sy'n berthnasol i gefnogi cyfle cyfartal a hyrwyddo AU**<br>(paragraffau 114-148 yn y canllawiau) | |
| **Adran 4.1 – Cyfle Cyfartal** | |
| Amcan 1 | *Hyrwyddo cyfranogiad ehangach a thecach mewn addysg uwch, codi dyheadau addysgol a helpu i baratoi myfyrwyr o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol ar gyfer addysg uwch* |
| Amcan 2 | *Gwella'r broses o gadw myfyrwyr o grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli mewn addysg uwch a chefnogi eu dilyniant a'u cynorthwyo i gwblhau eu cwrs drwy roi cymorth academaidd, lles ac ariannol o ansawdd uchel iddynt* |
| Amcan 3 | *Gwella'r profiad addysg uwch i fyfyrwyr o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol* |
| Amcan 4 | *Gwella rhagolygon cyflogadwyedd myfyrwyr wedi'u tangynrychioli mewn addysg uwch drwy raglenni wedi'u targedu i gynyddu sgiliau, ymwybyddiaeth o sgiliau, uchelgais a hyder* |
| Amcan 5 | *Ehangu dwyieithrwydd drwy gynnig darpariaeth academaidd a gwasanaethau ychwanegol drwy gyfrwng y Gymraeg* |
| **Adran 4.2 – Hyrwyddo addysg uwch** | |

| | |
|---|---|
| Amcan 1 | *Hyrwyddo llais y myfyrwyr, gan sicrhau bod ein myfyrwyr yn bartneriaid gweithredol wrth ddatblygu ein gweithgareddau, y cwricwla a phrosesau* |
| Amcan 2 | *Gwella ansawdd y dysgu a'r addysgu, gan gynnwys technolegau i wella'r profiad dysgu ac addysgu* |
| Amcan 3 | *Cryfhau cyflogadwyedd graddedigion* |
| Amcan 4 | *Codi uchelgais academaidd drwy weithio mewn partneriaeth ag ysgolion a cholegau a darparu pecyn o ysgoloriaethau sy'n gwobrwyo rhagoriaeth academaidd* |

| | |
|---|---|
| Amcan 5 | *Gwella profiad myfyrwyr drwy fentrau i wella lles* |
| Amcan 6 | *Gwella gweithredu'r cynllun ffioedd, y monitro arno ac ymwybyddiaeth o'i effaith* |

## Awdurdodi'r cais am gynllun ffiioedd a mynediad i CCAUC (yn ofynnol i'w gyhoeddi)

Wrth awdurdodi ceisiadau cynlluniau ffioedd a mynediad, mae'r corff llywodraethu:

i. yn cadarnhau ei fod yn parhau i fod yn sefydliad sy'n darparu addysg uwch yng Nghymru ac yn elusen.

ii. wedi gweld ac ystyried tystiolaeth briodol i gefnogi'r datganiadau a wneir yn y cais hwn.

iii. yn cadarnhau bod ymgynghoriad priodol wedi'i gynnal â'i fyfyrwyr, y rhai sy'n astudio yn y sefydliad a chyda darparwyr eraill lle darperir addysg ar ran y sefydliad.

iv. yn cadarnhau bod yr wybodaeth a ddarperir yn y cais cynllun ffioedd a mynediad hwn yn gywir a chyfredol, ar adeg ysgrifennu, ac yn seiliedig ar ddata gwiriadwy.

v. yn cadarnhau: **[dylid dileu un neu fwy o ddatganiadau, fel bo'n briodol]**
   a. ei bod hi'n dderbyniol i CCAUC ddefnyddio gwybodaeth/data am gyllid neu ansawdd ac/neu unrhyw wybodaeth/ddata arall a gedwir ganddo am sefydliad a reoleiddir ar hyn o bryd, waeth a ddarparwyd yr wybodaeth/data yn wreiddiol at ddibenion rheoleiddio o dan Ddeddf 2015 ai peidio;
   b. nad yw hi'n dderbyniol i CCAUC ddefnyddio gwybodaeth/data am gyllid neu ansawdd ac/neu unrhyw wybodaeth/ddata arall a gedwir ganddo am sefydliad a reoleiddir ar hyn o bryd at ddibenion rheoleiddio o dan Ddeddf 2015;
   c. ei fod yn cyflwyno gwybodaeth/data newydd, cyfredol, a mwy diweddar yn sail ar gyfer asesiad CCAUC.

vi. yn deall bod CCAUC yn cadw'r hawl i gynnal ymweliad â'r sefydliad er mwyn deall yn well y cymhwysedd sy'n gysylltiedig â threfnu a rheoli materion ariannol, y data a gyflwynwyd mewn cynlluniau ffioedd a mynediad ac/neu ansawdd yr addysg a ddarperir gan y sefydliad, neu ar ei ran.

vii. yn deall bod yn rhaid iddo ddarparu i CCAUC ac/neu asiant CCAUC wybodaeth, cymorth a mynediad i'w gyfleusterau a chyfleusterau cyrff eraill sy'n darparu addysg uwch ar ei ran.

viii. yn deall y caiff CCAUC gynnal adolygiad yn gysylltiedig ag ansawdd addysg a ddarperir gan y sefydliad, neu ar ei ran, neu drefnu i asiant wneud hynny, a bod yn rhaid i'w gorff llywodraethu roi ystyriaeth i unrhyw gyngor a gaiff gan CCAUC neu gan y corff a benodir gan CCAUC i'r diben hwn.

ix. yn cadarnhau y rhoddwyd ystyriaeth i'r holl addysg a ddarperir gan y sefydliad, neu ar ei ran, waeth beth yw lefel neu leoliad y ddarpariaeth, yn y cais cynllun ffioedd a mynediad hwn.

x. yn cadarnhau mai isel yw'r risg i'r sefydliad fethu ar sail ariannol dros y tymor canolig i'r tymor hir.

xi. yn cadarnhau bod y cyfrifon yn cael eu harchwilio bob blwyddyn gan archwilydd cofrestredig, ac nad yw'r archwilydd cofrestredig o'r un cwmni, nac/neu yr un peth â'r unigolyn a luniodd y cyfrifon.

xii. yn cadarnhau bod y sefydliad yn cydymffurfio â chanllawiau'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd (CMA) ar gyfer addysg uwch.

xiii. yn deall bod yn rhaid anrhydeddu unrhyw ymrwymiadau ariannol a wneir i fyfyrwyr yn y cynllun ffioedd a mynediad, fel y cafodd ei gymeradwyo gan CCAUC.

xiv. yn cadarnhau y bydd yn parhau i fuddsoddi'r un gyfran o incwm ffioedd israddedig amser llawn i hyrwyddo cyfle cyfartal a hyrwyddo addysg uwch, ac na fydd yn lleihau'r buddsoddiad i hyrwyddo cyfle cyfartal a fwriedir i gefnogi dim ond y rheini sydd wedi'u tangynrychioli mewn addysg uwch.

xv. yn cadarnhau y bydd yn parhau i fuddsoddi ei gyfraniad sefydliadol i'r Rhaglen Ymgyrraedd yn Ehangach sydd yn cydweddu â'i Strategaeth Ymgyrraedd yn Ehangach a'r Cynllun Gweithredu y cytunwyd arnynt.


xvi. yn cadarnhau y bydd yn cadw lefelau'r cymorth i fyfyrwyr.

xvii. yn cadarnhau y bydd y sefydliad yn sicrhau bod copi o'r cynllun ffioedd a mynediad ar gael i'w fyfyrwyr mewn unrhyw fformat.

xviii. yn cadarnhau y bydd y sefydliad yn rhoi cyfarwyddiadau clir i'w fyfyrwyr ynghylch sut i ddilyn prosesau cwyno CCAUC.

xix. yn cymryd pob cam rhesymol i gefnogi grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli sy'n astudio ar gyfer cyrsiau ôl-raddedig.

xx. yn ystyried sut gall y buddsoddiad roi'r gefnogaeth orau i'r myfyrwyr hynny yr effeithiwyd fwyaf arnynt gan bandemig Covid-19, lle nad ydynt eisoes wedi'u nodi'n grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli.

| Cyflwyniad cais Cynllun Ffioedd a Mynediad i CCAUC[1] | |
|---|---|
| Dyddiad cymeradwyaeth y Corff Llywodraethu: | 14 Mai 2022 |
| Llofnod awdurdodedig y Corff Llywodraethu: |  |
| Dyddiad cymeradwyaeth y Corff Llywodraethu: |  |
| Dyddiad: | 10 Ebrill 2024 |
| | |

[1] Dim ond fersiynau o gynlluniau ffioedd a mynediad a gymeradwywyd gan CCAUC y dylid eu cyhoeddir ar wefannau'r sefydliad.